


Aml-ddisgyblaethol

Defnyddir y model yma ar gyfer dysgu mewn dwy neu tri phwnc trwy un profiad pwerus profiadwyd gan yr athro a'r dysgwyr, (Barnes, 2015, tud 58). Felly, ar gyfer y model yma, dewiswyd ymweliad i'r Parc Gwledig leol ar gyfer y profiad pwerus er mwyn sbarduno'r dysgu.

Ar ôl cynnal pleidlais, penderfynwyd fel dosbarth i fynd ar ymweliad i'r Parc Gwledig ym Mhenbre gan eu bod yn ceisio amddiffyn eu cymuned leol. Nodwyd eu diddordeb yn y traeth a'r goedwig. Dangoswyd ymwybyddiaeth gref o'r effeithiau mae cynhesu byd-eang yn cael ar yr amgylchedd lleol, felly bydd hyn yn datblygu'r cwricwlwm ADCDF, (Llywodraeth Cymru, 2008) a'r Cwricwlwm Cymreig, (Llywodraeth Cymru, 2003).



Y gweithgareddau

Llythrennedd

- Llithr darllen (sganio) am wybodaeth benodol er mwyn casglu gwybodaeth i ysgrifennu erthygl papur Newydd amdano'r Parc Gwledig
- Casglu syniadau i gynllunio ysgrifennu ac addasu'r hyn maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darlennydd, sef: yr erthygl papur Newydd
- Defnyddio geirfa bwnc penodol yn annibynnol wrth ysgrifennu cerdd am y parc Gwledig

Rhifedd

- Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau gan weithio allan yr elw mae'r Cyngor Sir Gâr yn derbyn fel canlyniad i'r Parc Gwledig parhau i fod ym Mhare Gwledig.
- Darllen oriau a munudau ar gloc digidol 24 awr er mwyn cynllunio calendrau i gynllunio digwyddiadau ar gyfer y Parc Gwledig.
- Cyfrifo perimedr ac arwynebedd y Parc

Cymhwysedd digidol

- Dod o hyd i wybodaeth briodol gan ddefnyddio gwahanol allweddeiriau a thechnegau chwilio ar gyfer yr erthygl papur Newydd a gwneud penderfyniad os yw wefan yn ddibynadwy
- Creu ac addasu cydrannau aml-gyfringol gan ddefnyddio ystod o feddalwedd wrth greu fideo yn hysbysebu'r Parc.

Ymgorffori llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel cyfrifoldebau trawgwricwlaidd



Bwriedir i archwilio ac ymchwilio dau fodel o ddamcaniaeth Barnes (2015, tud 59) er mwyn datblygu'r sgiliau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd digidol. Y cyfnod dan sylw ydy Cyfnod Allweddol Dau, a'r oedran flwyddyn benodol trafodir yw Blwyddyn Pedwar. Cafwyd yr ysgol ei leoli ym Mhorth Tywyn, Sir Gâr.

Wrth gadw'r Hawliau Plant y CCUHP (2016), Erthygl 12 yn benodol, rhoddwyd y dewisiad o'r profiad pwerus i blant Blwyddyn Pedwar. Awgryma Estyn fod defnyddio llais y dysgwyr i gynllunio'r addysgu ar draws yr ysgol gyfan yn datblygu eu dysgu annibynnol a'u medrau yn y tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, gan gymell y dysgwyr gan eu bod wedi diddori efo'r thema, (Estyn, 2018). Credir y bydd y meddylfryd hwn yn ateb argymhellion a gweledigaeth Donaldson, sef: i ennyn diddordeb pob dysgwr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn dysgu mewn amgylchedd sy'n ffynnu eu llwyddiant ac yn sgaffaldio eu dysgu er mwyn iddynt cyrhaedd eu lefelau cyrhaeddiad gorau phosib", (Donaldson, 2015, tud 10).



Manteision

- Yn berthnasol ar gyfer athrawon llai profiadol o'r pedagogeg o addysg drawsgwricwlaidd, (Barnes, 2015, tud 58).
- Hyrwyddo dau neu tri phwnc yn unig yn sicrhau datblygiad ystyrlon o sgiliau, (Barnes, 2015, tud 58).

Cyfngiadau

- Mae yna bryderon fydd yna gysylltiadau arwynebol i'r dysgu, er enghraifft: gwneud gwaith Rhifedd ar daflen mewn siâp coeden i ymglymu â'r thema, (Hayes, 2010, tud 384).
- Dadleuir fod yna cyfngiadau ynghylch cynhwysiant. Efallai y mae rhai dysgwyr efo ADY yn methu cael mynediad i'r dysgu trwy ddull trawsgwricwlaidd, (Kerry, 2010, tud 80).

Argymhellion

Credir dylid defnyddio'r 'Leonardo Effect' er mwyn gwneud yn siŵr fod y gweithgareddau oporitiwnistaidd wir yn ddilys i ddiddordeb a bywydau'r dysgwyr, (Ynystawe, 2019). Trwy wneud hyn, mi fydd y datblygiad o'r tri chyfrifoldeb yn awtentig i'r plant yn bersonol a hybu annibyniaeth a pherchnogaeth y meysydd dan sylw eu hun.

Manteision

- Dywed Kerry (2010, tud 44) fod rhai cyfleoedd oporitiwnistaidd i blant yn annog dysgu annibynnol a chymhelliant i ddysgu mewn pwnc sy'n ddiddorol iddynt hwy.
- Awgrymir fod dysgu yn cymryd lle pan mae addysgwyr yn rhoi cyfleoedd i blant pan mae "problem-solving and purposeful thinking are more important than the acquisition of subject-related facts", (Kerry, 2010, tud 1).

Cyfngiadau


- Ar y llaw arall, atega Barnes fod y model hyn yn "restrictive and over-assessed curricular also appear even more dominant", (Barnes, 2015, tud 64).
- Awgrymir fod gormod o ddefnydd o lais y disgybl yn gallu helpu plant i osgoi rhannau o'r cwricwlwm nad ydynt yn mwynhau, (Hayes, 2010, tud 384).
- Amlyga Hayes fod "an integrated approach is insufficiently rigorous", (Hayes, 2010, tud 384).

Argymhellion: Er credir fod y model yma'n hybu cymhelliant ddysgwyr yn y tri chyfrifoldeb, credir fod yna rhai newidiadau gellid gweithio'n well ar gyfer y fframweithiau dan sylw; er enghraifft: ddylid pob sgil yn ymwneud â rhif cael ei drin mewn termau arian, ac yn enwedig eu sgiliau entrepreneuriaeth sy'n galluogi hwy i ddatblygu'r tair agwedd yn gydamserol, (Estyn, 2018). Credir fod angen meddwl mewn ffordd oporitiwnistaidd mewn perthynas i'r cyfleoedd mentergarwch gellid datblygu o brofiad pwerus, felly: oporitiwnistaidd ar gyfer entrepreneuriaeth.

Oporitiwnistaidd

Wrth ddilyn y model Oporitiwnistaidd, mae'n amlwg fod y dysgu ac addysgu yn dibynnu'n hollol ar ymatebion plant yn nosbarth Blwyddyn 4, (Barnes, 2015, tud 64). Felly, mae rhaid rhoi'r grym a phŵer i'r plant yn hollol fan hyn ac y mae darparwyr addysg yn cynllunio'r dysgu ar sail syniadau'r plant yn unig.

Amlyga Barnes, (2015, tud 203) fod plant dal yn mwynhau thema sy'n seiliedig ar y gorffennol yn ogystal â themâu cyfredol a modern fel yr amgylchedd. Felly, ar gyfer datblygu'r cwricwlwm Cymreig, trefnwyd i gwmni 'Mewn Cymeriad' i ddod i wneud perfformiad ar gyfer Cyfnod Allweddol Dau. Gan ei fod yn niwrnod Llywelyn ein Llyw Olaf ym mis Rhagfyr, dewiswyd i gynnal sioe ar yr hanes tyngedfennol pwysig i Gymru.



Y gweithgareddau

Rhifedd

- Chwarae rôl – siop yr Oesoedd Canol- Defnyddio sgiliau rhif– rheoli arian
- Mewnbynnu'r elw a chymeryd y gronfeydd data a dadansoddi graffiau, (Estyn, 2019)

Cymhwysedd digidol

- Creu castell eich hun ar Minecraft
- Creu golygfa fideo o stori marwolaeth Llywelyn wrth ddefnyddio Green Screen a deunyddiau Lego




Diagram I ddanos y gêm 'Tag'.

Llythrennedd

- Chwarae rôl wrth ailberfformio marwolaeth Llywelyn efo cymeriadau Lego a Green Screen
- Sioe ffasiwn Oes y Tywysogion – ysgrifennu script ar gyfer y sioe ffasiwn
- Chwarae gêm 'tag' efo Byddin Cymru a Lloegr er mwyn cynrychioli rhannu a gorchfygu Cymru ar fuarth yr ysgol – cyfrannu i drafodaeth grŵp
- Ymchwilio ar y we am farwolaeth Llywelyn ac wedyn ysgrifennu'r stori- addasu'r hyn y maent yn ysgrifennu yn ôl y diben.

Darllen pellach

ACCAC (2003) *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig*. Caerdydd. ACCAC.

Adran Addysg a Sgiliau (2014) *Cwricwlwm Cymru Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Diwygiedig 2014)*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/resources/collections/lnf?lang=cy> [Darllenwyd 06 Rhagfyr 2019].

Barnes, J. (2015) *Cross-curricular learning 3-14 (3rd edition)* London: SAGE

Donalson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Crown Copyright. Ar gael: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-en.pdf> [Darllenwyd: 11 Rhagfyr 2019].

Estyn. (2018) Cynllun cwricwlwm creadigol mwy hyblyg i ennyn diddordeb disgyblion <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/cynllun-cwricwlwm-creadigol-mwy-hyblyg-i-ennyn-diddordeb-disgyblion> [Darllenwyd: 11 Rhagfyr 2019].

Estyn, 2018. *Ehangu medrau entrepreneuriaidd disgyblion a gwella safonau*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/ehangu-medrau-entrepreneuriaidd-disgyblion-gwella-safonau> [Darllenwyd: 3 Rhagfyr 2019].

Estyn, 2019. *Rhoi perchnogaeth i ddysgyblion ar eu dysgu*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/rhoi-perchenogaeth-i-ddisgyblion-ar-eu-dysgu> [Darllenwyd: 2 Rhagfyr 2019].

Hayes, D., 2010. The Seductive Charms of a Cross-Curricular Approach. *Education 3-13*, 38(4), pp.381–387.

Hwb, 2019. *Adnoddau*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/repository/resource/fb8c53aa-f221-446d-9f97-ecc851ee2483/cy> [Darllenwyd: 2 Rhagfyr 2019].

Kerry, T., 2010. *Cross-curricular teaching in the primary school planning and facilitating imaginative lessons* 1st ed., New York: Routledge.

Llywodraeth Cymru, 2008. *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, Cyd-ddealltwriaeth ysgolion*. Ar gael: http://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/72477/mod_folder/content/0/ADCDF-Cyd-ddealltwriaeth-ysgolion.pdf?forcedownload=1 [Darllenwyd: 2 Rhagfyr 2019].

Llywodraeth Cymru (2016) *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig Ar Hawliau'r plentyn*. Hawlfraint Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://www.hawliauplant.cymru/index.php/hawliau> [Darllenwyd: 13 Rhagfyr 2019].

Llywodraeth Cymru. (2013) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*, Caerdydd: LIC.

Mewn Cymeriad, 2019. *Mewn Cymeriad*. Ar gael yn: <http://www.mewncymeriad.cymru/> [Darllenwyd: 4 Rhagfyr 2019].

Ynystawe Primary School, 2019. *The Leonardo Effect*. Ar gael yn: https://swansea-edunet.gov.uk/en/schools/ynystawe/Pages/The_Leonardo_Effect.aspx [Darllenwyd: 12 Rhagfyr, 2019].